Ein cyf/Our ref: HB 72 19

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

13 Ionawr 2020

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynghylch fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (y Pwyllgor), *Budd-daliadau yng Nghymru*.

Ar 14 Ionawr, rydw i'n rhagweld y bydd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (y Ganolfan) yn cyhoeddi ei hadolygiad cyflym o'r dystiolaeth ynghylch diwygiadau posibl i'r ffordd y gweinyddir nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Byddaf yn ystyried canfyddiadau'r Ganolfan yn fanwl, ochr yn ochr ag adroddiad defnyddiol iawn y Pwyllgor, *Budd-daliadau yng Nghymru.* Byddaf yn darparu ymateb mwy manwl i argymhellion 10-17 y Pwyllgor cyn cychwyn toriad y Pasg 2020.

Lle'r ydym wedi dechrau amlinellu rhai egwyddorion craidd, sy'n cynnwys trugaredd, tegwch, urddas a dealltwriaeth, mae'r rhain yn parhau i fod yn egwyddorion i Lywodraeth Cymru  wrth ddatblygu pob polisi a gellir gweld hynny'n gyson yn ein dull gweithredu. Y dull gweithredu hwn a'r egwyddorion hyn yw'r hyn yr ydym yn gofyn i Lywodraeth y DU eu defnyddio o fewn y setliad datganoli presennol, a'r rhain hefyd y byddem yn bwriadu'u rhoi ar waith petai unrhyw ddatganoli pellach unrhyw bryd yn y dyfodol.

Rwyf wedi nodi isod rai o'ch cwestiynau penodol mewn cysylltiad â fy ymateb.

**Argymhelliad 1**

Bydd yr adolygiad traws-lywodraethol o'n rhaglenni a'n gwasanaethau presennol yn adrodd yn ôl yng Ngwanwyn 2020. Mae'r adolygiad yn edrych ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Bydd yr adolygiad yn ceisio darganfod y polisïau a'r rhaglenni hynny sy'n gweithio'n dda, a'r meysydd lle y dylem fod yn gwneud mwy. Mae cwmpas eang i'r adolygiad, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau a ariennir sydd o bosibl yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi plant. Bydd yn edrych ar draws

themâu ac yn casglu sylwadau ynghylch meysydd lle mae buddsoddiad yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf, neu ym mhle y gallai wneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn angen yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth hon a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar beth yn rhagor y gellir ei wneud dros y gyfran sylweddol hon o bobl Cymru.

**Argymhelliad 2**

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn diweddaru'r un wefan sy'n darparu gwybodaeth ynghylch cymhwysedd ar gyfer rhaglenni a chynlluniau Llywodraeth Cymru. Gallaf gadarnhau y byddwn yn ymchwilio i sut y gallwn gynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau datganoledig yn y fan honno, lle mae'n bosibl ac yn ymarferol gwneud hynny.

**Argymhelliad 3**

Mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Dewisol, rydym yn diweddaru'r canllawiau ar gyfer y Taliad Cymorth mewn Argyfwng i sicrhau ymhellach bod hawlwyr, neu asiantaethau cymorth, yn ymwybodol ei fod yn grant i helpu â chostau hanfodol yn sgil argyfwng, neu drychineb fel llifogydd neu dân yn y cartref, neu galedi ariannol enbyd, a all gynnwys oedi cyn talu budd-daliadau. Byddaf yn darparu dolenni at y canllawiau diwygiedig cyn gynted ag y byddant wedi'u cwblhau.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Gronfa Cyngor Sengl yn parhau i fod yn ddull gweithredu sylweddol, Cymru-gyfan, ar gyfer hybu a chynyddu'r defnydd o bob budd-dal, boed wedi'i ddatganoli neu heb ei ddatganoli. Yn gefnogaeth i hyn, mae gennym hanes cryf o roi grantiau i ddarparwyr cyngor ac o gynyddu'r cyllid i ateb y galw. Mae amrywiaeth o bartneriaid yn gweithio'n ddiffwdan mewn consortiwm, gan sicrhau bod gwasanaethau cynghori yn treiddio'n ddwfn i gymunedau a'u bod yn cael eu cynnig yn y lleoedd y mae'r bobl yn yr angen mwyaf yn mynd iddynt.

Yn cyd-fynd â'r gwaith a gefnogir gan y Gronfa Cyngor Sengl, mae cynlluniau unigol hefyd yn hybu defnydd ohonynt drwy eu rhwydweithiau pwrpasol a'u rhanddeiliaid. Er enghraifft, mae ymgyrch genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil gan Policy in Practice i ymchwilio i'r cysylltiad rhwng Credyd Cynhwysol a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gan fod y Cynllun yn math o gymorth 'basbort'. Cyhoeddwyd adroddiad interim Policy in Practice ar 9 Ionawr 2020.

https://llyw.cymru/credyd-cynhwysol-cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor-ac-ol-ddyledion-rhent-yng-nghymru-adroddiad

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i weld beth y gellir ei wneud yn benodol i hybu defnydd o'r Credyd Pensiwn, o ystyried y newidiadau y bydd Llywodraeth y DU yn eu gwneud eleni o ran hawl pobl dros 75 oed i gael trwydded teledu am ddim.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government